

Pan fydd claf yn ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch cael cymorth i farw

- 1 Bydd meddygon yn wynebu sialensiau anodd wrth ymateb mewn ffordd sensitif a thosturiol i glaf sy'n ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch prysuro eu marwolaeth, gan sicrhau ar yr un pryd na fydd eu hymateb yn mynd yn groes i'r gyfraith trwy annog neu gynorthwyo'r claf i gyflawni hunanladdiad.
- 2 *Mae Arfer Meddygol Da* yn nodi mewn ffordd eglur bod gwranddo ar gleifion, darparu gwybodaeth iddynt, a pharchu eu penderfyniadau a'u dewisiadau yn rhan annatod o arfer da. Rhaid i feddygon:
 - ddangos parch tuag at fywyd dynol
 - sicrhau eu bod yn rhoi'r pwys mwyaf ar ofal eu claf
 - cydymffurfio gyda'r cyfreithiau a'r codau ymarfer sy'n berthnasol i'w gwaith
 - sicrhau bod eu hymddygiad yn cyfiawnhau ymddiriedaeth eu cleifion ynddynt bob amser, yn ogystal ag ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn
 - gwranddo ar gleifion a pharchu eu safbwyntiau ynghylch eu hiechyd
 - darparu'r wybodaeth i gleifion y byddant yn ei dymuno neu y byddant ei hangen er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau ynghylch eu hiechyd neu eu gofal iechyd, ac ateb cwestiynau cleifion mewn ffordd onest, i'r graddau ag y bo hynny'n ymarferol, ac mewn ffordd mor lawn ag y bydd y claf yn ei dymuno
 - trin cleifion fel unigolion a pharchu eu preifatrwydd a'u hurddas
 - parchu hawl cleifion cymwys i wneud penderfyniadau am eu gofal, gan gynnwys eu hawl i wrthod triniaeth, hyd yn oed os bydd hyn yn arwain at eu marwolaeth*
 - darparu gofal clinigol da, gan gynnwys triniaeth er mwyn rhoi sylw i boen a symptomau eraill y claf sy'n peri gofid iddynt.
- 3 Yn ogystal, mae canllawiau ynghylch *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud*

* Ni fydd claf y byddant yn marw o ganlyniad i ddilyniant naturiol eu clefyd ar ôl gwrthod triniaeth i ymestyn eu bywyd, yn cyflawni hunanladdiad. Ymddiriedolaeth GIG Airedale NHS v Bland [1993] 1 All ER 821, Re JT (Oedolyn: Gwrthod triniaeth feddygol) [1998] 1 FLR 48 ac Re AK (Triniaeth feddygol: Caniatâd) [2001] 1 FLR 129

penderfyniadau yn nodi rhwymedigaethau meddygon i:

- drafod eu dewisiadau o ran triniaeth gyda chleifion (gan gynnwys y dewis o beidio cael unrhyw driniaeth) a chynlluniau ar gyfer triniaeth yn y dyfodol, gan gynnwys y mathau o driniaethau neu ofal y byddai cleifion yn eu dymuno – neu na fyddent yn eu dymuno – pan na fydd modd iddynt wneud neu fynegi eu penderfyniadau eu hunain mwyach
 - creu cyfleoedd i gleifion fynegi pryderon ac ofnau ynghylch datblygiad eu clefyd ac ynghylch eu marwolaeth, ac i fynegi eu dymuniadau.
- 4 Yn ogystal, mae'n nodi mewn ffordd eglur nad oes gofyn i feddygon ddarparu triniaethau na fyddant o fudd cyffredinol i'r claf yn eu barn nhw, neu y byddant yn achosi niwed i'r claf.
- 5 Pan fydd cleifion yn cyfeirio at gynorthwyo hunanladdiad neu'n gofyn am wybodaeth y gallai eu hannog neu eu cynorthwyo i orffen eu bywydau, nid oes modd i barch tuag at ymreolaeth claf gyfiawnhau gweithredu anghyfreithlon.*
- 6 Dylai meddygon:
- fod yn barod i wrando ac i drafod y rhesymau dros gais y claf
 - cyfyngu unrhyw gyngor neu wybodaeth ynghylch hunanladdiad i esboniad ei bod yn drosedd annog neu gynorthwyo unigolyn i gyflawni neu i geisio cyflawni hunanladdiad
- bod yn barchus ac yn dosturiol a pharhau i ddarparu gofal priodol ar gyfer y claf
 - ystyried dealltwriaeth y claf o'u cyflwr presennol a'u cynllun gofal
 - asesu a oes gan y claf unrhyw anghenion gofal lliniarol nad ydynt yn cael eu bodloni, gan gynnwys rheoli poen a symptomau, cymorth seicolegol, cymdeithasol neu ysbrydol.
- 7 Mae'n bwysig nodi nad oes unrhyw beth yn yr arweiniad hwn yn atal meddygon rhag presgripsiynu meddyginiaethau neu driniaeth er mwyn lleddfu poen neu symptomau gofidus eraill. Mae *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes: arfer da wrth wneud penderfyniadau* yn rhoi dyletswydd ar feddygon i ddarparu gofal o'r fath, ac mae'n cynnwys cyfeiriadau at ffynonellau canllawiau clinigol ynghylch rheoli poen.†

Sylwer: Rydym wedi cyhoeddi **Arweiniad ar gyfer y Pwyllgor Ymchwilio ac Archwilwyr Achosion wrth ystyried honiadau ynghylch cyswllt meddyg wrth annog neu gynorthwyo hunanladdiad** hefyd.

* Rhaid i feddygon nad ydynt yn siŵr ynghylch sut y gallai camau gweithredu penodol gael eu hystyried yn ôl y gyfraith, geisio'r cyngor cyfreithiol diweddaraf. Mae modd cael hwn gan gymdeithas amddiffyn, cymdeithas broffesiynol neu adran gyfreithiol cyflogwr.

† Gweler y cyfeiriadau yn *Triniaeth a gofal tuag at ddiwedd oes*.

www.gmc-uk.org/guidance/ethical_guidance/end_of_life_sound_clinical_judgements.asp and <http://www.nice.org.uk/guidance/CG140>